**Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre**

# Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024–2028

## Cyflwyniad

Fel corff cyhoeddus, mae'n rhaid i ni gyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol sy'n nodi ein hamcanion cydraddoldeb ac sy'n egluro sut y byddwn yn cyflawni'r amcanion hyn. Rydym yn cael ein harwain gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, sy'n galw arnom i feddwl ymlaen, fel y gallwn ateb anghenion y bobl rydym yn gweithio gyda nhw yn well. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cyhoeddi adroddiad blynyddol gyda gwybodaeth am ein cynnydd, ynghyd â gwybodaeth cydraddoldeb ynghylch ein gweithlu bob Gwanwyn.

Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn cynnwys tri nod cyffredinol:

1. ddiddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithiol ac ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf.
2. hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt
3. meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

O dan y Ddeddf Cydraddoldeb, mae **9 nodwedd warchodedig**, sef:

| | | |
|---|---|---|
| Oedran | Anabledd | Ailbennu Rhywedd |
| Crefydd/Cred | Rhyw (Rhywedd) | Hil |
| Cyfeiriadedd Rhywiol | Beichiogrwydd a Mamolaeth | Priodas/Partneriaeth Sifil |

## Datblygu ein Hamcanion ar gyfer 2024 – 2028

Fe wnaethom ymgynghori ac ymgysylltu â chleifion, staff, partneriaid, sefydliadau cydraddoldeb a rhanddeiliaid eraill mewn partneriaeth â Phartneriaeth Cydraddoldeb Cyrff Cyhoeddus Cymru. Fe wnaethom ofyn i'r rhanddeiliaid hyn beth oedd eu barn nhw o ran beth y dylai'r blaenoriaethau cydraddoldeb fod ar gyfer yr Ymddiriedolaeth a beth yn eu barn nhw, y dylid ei wneud i wella cydraddoldeb. Fe wnaethom nodi hefyd, pa ymchwil a gwybodaeth oedd eisoes ar gael i helpu i ddatblygu'r amcanion. Fe wnaethom arolygu cleifion, staff, partneriaid, sefydliadau cydraddoldeb a thrydydd sector a phobl eraill i weld a ddylai ein hamcanion oedd wedi cael eu gosod yn flaenorol gael eu cadw fel y maent, eu newid, neu a oedd angen i ni ychwanegu rhai newydd.

Yng ngoleuni'r ddealltwriaeth o'n rhwymedigaethau cyfreithiol, ein bwriadau strategol ac adborth gan rhanddeiliaid, rydym wedi creu ein Gweledigaeth ar gyfer Cydraddoldeb a phedwar Amcan Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024 – 2028. Rydym hefyd wedi disgrifio'r meysydd gwaith eang a fydd yn ein galluogi i gyflawni ein gweledigaeth.

**Ein Gweledigaeth ar gyfer Cydraddoldeb**

Ein gweledigaeth ar gyfer cydraddoldeb yw bod ein gwerthoedd Gofalgar, Parchus ac Atebol yn amlwg ym **mhopeth** a wnawn, a thrwy hynny, y byddant yn gwella bywydau ein holl randdeiliaid, waeth beth fo'u cefndir. Byddwn yn defnyddio'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn i roi cleifion, rhoddwyr a staff wrth galon popeth a wnawn. Bydd lens cydraddoldeb yn ein galluogi i herio'r status quo a gofyn cwestiynau, fel y gallwn ddylunio ein sefydliad a'n systemau o amgylch pobl, a thalu sylw at farnau, gofynion a dyheadau unigolion.

Ein huchelgais cyffredinol yw sicrhau bod mwy o gydweithio rhwng aelodau'r timau Arwain a Rheoli a'r bobl rydym yn eu cyflogi. Bydd gwell perthynas rhwng staff a chleifion, a byddwn yn gwneud ein gorau i ddileu rhwystrau i ofal. Bydd timau ar draws Gwasanaeth Canser Felindre, Gwasanaeth Gwaed Cymru a Gwasanaethau ar draws yr Ymddiriedolaeth yn cydweithio mwy, a bydd ganddynt well gwybodaeth am strategaethau a nodau gwaith adrannau eraill. Bydd mwy o ymgysylltu ar draws yr Ymddiriedolaeth a fydd yn ei dro, yn datblygu perthnasoedd a rhannu gwybodaeth. Bydd Cleifion a Rhoddwyr yn cael eu gwahodd i rwydweithiau i wrando ar eu hadborth a fydd wedyn, yn gwella'r gwasanaethau sydd yn cael eu darparu yn y gwasanaethau Canser a Gwaed, a byddwn yn datblygu strategaethau i leihau rhwystrau i ofal a darparu gwasanaethau. Bydd amgylchedd gwaith cadarnhaol yn cael ei feithrin gyda sianeli clir o adborth gan staff, a fydd yn mynd i'r afael â phob mater cydraddoldeb a godir.

**Dod â'r amcanion yn fyw**

Mae gennym bedwar amcan clir, ac rydym wedi amlinellu'r meysydd gwaith allweddol dros y pedair blynedd nesaf a fydd yn ein galluogi i gyflawni ein gweledigaeth ar gyfer cydraddoldeb.

1 **Cynyddu amrywiaeth a chynhwysiant y gweithlu a dileu Bylchau Cyflog**

Hoffem i'r gweithlu adlewyrchu natur amrywiol y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu yn well a hefyd, sicrhau nad oes unrhyw wahaniaeth cyflog systemig rhwng pobl o wahanol rywiau, hil neu anabledd.

**Camau Gweithredu**

- Gwirio bod ein dulliau recriwtio a dethol yn agored ac yn deg.
- Cydnabod bod proffil ein gweithlu yn newid, a bod angen i'n timau ddatblygu i gwrdd â'r newid hwn, er enghraifft, mae ein timau'n dod yn fwy amrywiol yn sgil recriwtio Meddygon a Nyrsys yn llwyddiannus o India a Hong Kong.
- Adeiladu ar ein cysylltiadau ag ysgolion, colegau a'r gymuned i gyflwyno pobl o bob rhan o'r gymuned gyfan i rolau a gyrfaoedd mewn gofal iechyd.
- Cefnogi menywod i ffynnu ym meysydd STEM.

- Creu amgylchedd gwaith cadarnhaol ym mhob maes, fel bod yr Ymddiriedolaeth yn cael ei hystyried yn gyflogwr o ddewis, lle mae pobl eisiau aros.
- Defnyddio addasiadau rhesymol o'r cyswllt cyntaf ag ymgeiswyr drwy gydol eu cyflogaeth gyda'r Ymddiriedolaeth.
- Blaenoriaethu datblygiad proffesiynol i bawb.
- Cynnwys fforymau ymgysylltu ac amrywiaeth staff mewn bywyd pob dydd, gan gynnwys ystyried effaith croestoriadedd.
- Gweithredu Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth yr Ymddiriedolaeth a Safon Cydraddoldeb Hil y Gweithlu.
- Adeiladu ar ein statws fel cyflogwr Hyderus o ran Anabledd, gan gyrraedd Lefel Arweinydd.
- Datblygu ein hadroddiad ar fylchau cyflog, a bwydo'r argymhellion i mewn i gynlluniau gwaith blynyddol.

2 **Gweithio gyda'r Gymuned.**

Er mwyn sicrhau ein bod yn darparu gwasanaethau sydd eu heisiau a’u hangen ar ein cleifion a’n rhoddwyr, mae’n bwysig ein bod yn eu deall ac yn gofyn iddynt pa bethau maen nhw eu heisiau gennym ni, a sut y gallem wneud hynny yn well.

**Camau Gweithredu**

- Creu cyfleoedd i staff, cleifion a rhoddwyr ymgysylltu â chymunedau, er enghraifft Pride, Wythnos Iaith Arwyddion, Wythnos Cydraddoldeb Anabledd, Mis Hanes Pobl Dduon, i ganiatáu i bawb ddysgu, profi a chysylltu â gwahanol gymunedau a diwylliannau.
- Sefydlu system reolaidd o gasglu adborth gan randdeiliaid, i ddeall sut mae pobl yn teimlo am ein gwasanaethau a’n sefydliad.
- Datblygu ein hymgysylltiad â rhanddeiliaid ar gyfer gwasanaethau Canser a Gwaed ymhellach, drwy ymgysylltu â grwpiau a chymunedau amrywiol.

3. **Cyfathrebu â phobl mewn ffyrdd sy'n bodloni eu gofynion.**

Mae gennym ni sawl ffordd o gadw mewn cysylltiad â phobl Cymru; llythyrau, galwadau ffôn, y cyfryngau cymdeithasol; mae’n bwysig ein bod ni’n gwneud hyn mewn ffordd y gall pobl ei deall yn hawdd ac yn eu hiaith gyntaf, neu yn eu hiaith ddewisol.

**Camau Gweithredu**

- Parhau i wella’r broses o gasglu gwybodaeth am iaith, a chyfathrebu’n effeithiol â chleifion, rhoddwyr, eu gofalwyr a’u teuluoedd, yn yr iaith o’u dewis.
- Gwella mynediad i’n gwasanaethau i ddefnyddwyr BSL er mwyn galluogi pobl Fyddar i allu cyfathrebu â’r system, cael mynediad iddi, ymgysylltu â hi a darparu adborth/pryderon ar y system mewn ffordd sy’n ateb eu hanghenion yn llawn.
- Gweithredu’r Cynnig Rhagweithiol i siaradwyr Cymraeg, a chydymffurfio â Fframwaith Safonau’r Gymraeg

4. **Sicrhau bod darpariaeth y gwasanaeth yn adlewyrchu gofynion unigol.**

Rydym yn darparu gwasanaethau canser arbenigol i boblogaeth de ddwyrain Cymru ar adeg pan fo pobl yn arbennig o agored i niwed. Rydym hefyd yn ddyledus i'n rhoddwyr, sy'n gwirfoddoli i roi gwaed neu feinwe er budd eraill. Rydym eisiau i'r holl unigolion hyn allu cael gafael ar yr hyn sydd ei angen arnynt mor syml â phosibl.

**Camau Gweithredu**

- Cymhwyso methodoleg yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb i unrhyw brosiectau ar ailgynllunio llwybrau cleifion, gan gynnwys ystyried effaith oedran.
- Gwella hygyrchedd ein gwasanaethau drwy arloesi, yng ngoleuni adborth gan gleifion a rhoddwyr, gan gynnwys adolygu anableddau neu addasiadau'n rheolaidd.
- Gwella'r broses o gofnodi a throsglwyddo data cleifion, fel bod cleifion y mae gwasanaethau eraill wedi'u nodi fel bod yn ddifreintiedig, yn cael y cymorth priodol pan fyddant yn dod atom.
- Cefnogi datblygu dull unedig, sengl tuag at Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar draws GIG Cymru gyfan.
- Cefnogi rheolwyr i gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb i greu newid cadarnhaol
- Addysgu staff ar anghenion pobl eraill ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig.

**Rhannu ein cynnydd**

Bydd cynnydd gyda'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cael ei fonitro o fewn y Grŵp Llywio ar Fyw'n Iach ac Ymgysylltu. Bydd adroddiad llawn ar gynnydd yn cael ei gyflwyno gyda'r Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol, yn unol â chylch adrodd yr Ymddiriedolaeth.

Y mesurau sy'n dangos cynnydd fydd:

1. Data'r gweithlu, sy'n dangos bod proffil gweithwyr wedi ehangu dros amser, mewn perthynas â newid o flwyddyn i flwyddyn ac o'u cymharu gyda ffigurau Cyfrifiad 2021.

2. Sgorau gwell yn Arolwg Staff y GIG ar gyfer mesurau cydraddoldeb ac amrywiaeth.

3. Sgorau gwell yn adroddiad Safon Cydraddoldeb Hil y Gweithlu.

4. Cynnydd yn nifer y staff sy'n cymryd rhan mewn digwyddiadau ymgysylltu, hyfforddiant a Fforymau Amrywiaeth.

5. Cynnydd yn nifer y cleifion a'r rhoddwyr sy'n cynnig adborth ac sy'n cymryd rhan mewn digwyddiadau ymgysylltu.

6. Defnydd cynhwysfawr o Asesiadau o’r Effaith ar Gydraddoldeb lle bo angen, a gwelliannau yn ansawdd yr argymhellion a'r camau gweithredu sy'n deillio o'r dadansoddiad.